


# Ffiseg a'r UE yng Nghymru



Cymdeithas wyddonol ag aelodau yw'r Sefydliad Ffiseg yng Nghymru, sy'n ymroi i hyrwyddo ffiseg a dod â ffisegwyr ynghyd er budd pawb. Mae gennym dros 1,000 o aelodau, ac rydym yn perthyn i'r Sefydliad Ffiseg sy'n sefydliad elusennol ac yn gymdeithas wyddonol flaenllaw.

Mae'r briff hwn yn cyflwyno cyfres fer o ystadegau ynghylch effaith aelodaeth y DU o'r UE ar ffiseg yng Nghymru, ac yn cyflwyno data cymharu Cymru â gwledydd eraill y DU ac â phynciau eraill.


## Mae adrannau ffiseg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru:

- Yn derbyn cyfran uwch o fyfyrwyr gradd meist'r a myfyrwyr doethuriaeth o wledydd yr UE heblaw'r DU na'r cyfartaledd ar gyfer pob pwnc yng Nghymru, ond yn derbyn cyfran is o fyfyrwyr israddedig.
- Yn cyflogi cyfran uwch o staff academiaidd o wledydd yr UE heblaw'r DU na'r cyfartaledd ar gyfer pob pwnc yng Nghymru, sy'n gyson â chyfartaledd y DU ar gyfer adrannau ffiseg.
- Yn cael 13% o'u holl gyllid a'u holl grantiau ar gyfer ymchwil o ffynonellau yn yr UE. Mae'r ffigur hwn yn is na'r gyfran ar gyfer pynciau STEM eraill yng Nghymru, ac yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer adrannau ffiseg.

## Myfyrwyr


Mae dinasyddion o wledydd yr UE heblaw'r DU yn cyfrif am 2% o fyfyrwyr israddedig ac 11% o fyfyrwyr gradd meist'r mewn adrannau ffiseg yng Nghymru, sy'n is na chyfartaledd y DU, sef 5% ar gyfer myfyrwyr israddedig ac 16% ar gyfer myfyrwyr gradd meist'r. Fodd bynnag, o ran myfyrwyr gradd meist'r, mae'r gyfran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob pwnc yng Nghymru, sef 6%.

### Myfyrwyr ffiseg israddedig yng Nghymru, yn ôl lleoliad eu cartref



● Yr UE heblaw'r DU 2%  
● Y DU 97%  
● Y tu allan i'r UE 1%

### Myfyrwyr gradd meist'r mewn ffiseg yng Nghymru, yn ôl lleoliad eu cartref



● Yr UE heblaw'r DU 11%  
● Y DU 68%  
● Y tu allan i'r UE 21%

### Myfyrwyr doethuriaeth mewn ffiseg yng Nghymru, yn ôl lleoliad eu cartref



● Yr UE heblaw'r DU 17%  
● Y DU 62%  
● Y tu allan i'r UE 21%


Mae 16.4% o fyfyrwyr doethuriaeth mewn adrannau ffiseg yng Nghymru yn dod o wledydd yr UE heblaw'r DU. Mae hynny'n cymharu â chyfartaledd o 10% ar gyfer pob pwnc yng Nghymru.




## Staff

Mae chwarter yr holl staff academiaidd mewn adrannau ffiseg yng Nghymru yn dod o wledydd yr UE heblaw'r DU. Daw 65% o'r staff o'r DU, a daw ychydig dan 10% o'r tu allan i'r UE. Mae cyfran y staff yng Nghymru sy'n dod o wledydd yr UE heblaw'r DU yn is nag yn yr Alban (28%) ac yn gyson â'r DU (26%) ond mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob pwnc yng Nghymru (10%) ac ar draws y DU (16%) fel y dangosir yn y graff isod.

### Staff academiaidd o wledydd yr UE heblaw'r DU, yn ôl pwnc



### Athrawon prifysgol ffiseg ym mhrifysgolion Cymru



Mae athrawon prifysgol yn uwch-academyddion ac yn gyfrifol am rywfaith o'r gwaith ymchwil o safon a gyflawnir ym mhrifysgolion Cymru. Mae adrannau ffiseg yng Nghymru yn cyflogi cyfran uwch o athrawon prifysgol o wledydd yr UE heblaw'r DU (21%) na'r cyfartaledd ar gyfer adrannau ffiseg yn y DU (17%). Mae'r ffigur hwn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob pwnc (16%) fel y dangosir yn y graff.


Mae 'holl staff academiaidd' yn cyfeirio at deitlau swyddi ar lefelau F1, I0, J0, K0 fel y diffinnir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yn ogystal â staff ar gcontractau Addysgu yn unig, Ymchwil yn unig, ac Addysgu ac Ymchwil – gweler [hesa.ac.uk/collection/c15025/combined\\_levels/](https://hesa.ac.uk/collection/c15025/combined_levels/).



## Contractau a grantiau ymchwil

Mae adrannau ffiseg ym mhrifysgolion Cymru yn cael cyllid o nifer o wahanol ffynonellau, fel y dangosir yn y graff isod.

### Ffynonellau cyllid ar gyfer adrannau ffiseg yng Nghymru




Nid yw'r set ddata hon yn cynnwys cyllid grant rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Daw 13% o'r holl contractau a'r holl grantiau ymchwil a gaiff adrannau ffiseg yng Nghymru o ffynonellau yn yr UE, sy'n is na'r ffigur ar gyfer Lloegr a'r Alban (sef 18% ar gyfer y ddwy wlad). Daw 2% o gyfanswm y cyllid hwn o ddiwydiant yn yr UE, sy'n gyfran uwch na'r hyn a gaiff Lloegr a'r Alban lle mae cyllid o'r fath yn cyfrif am lai nag 1%.

Mae'r graff isod yn cymharu'r cyllid yng Nghymru a'r DU sy'n dod o ffynonellau yn yr UE â'r cyllid a gaiff pynciau eraill. Pan ystyrir pob pwnc, mae cyfran y cyllid yng Nghymru sy'n dod o ffynonellau yn yr UE yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

### Cyfran y cyllid yng Nghymru a'r DU sy'n dod o ffynonellau yn yr UE, yn ôl pwnc





**Institute of Physics**

76 Portland Place, London W1B 1NT

Ffôn +44 (0)20 7470 4800

Ffacs +44 (0)20 7470 4848

**policy@iop.org**

**iop.org**

Ebrill 2017

Rhif elusen gofrestrdig 293851 (Cymru a Lloegr) a SC040092 (Yr Alban)